

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019

13 Mehefin 2019

Argymhellion

Argymhelliad 1. Teimlai rhai Aelodau y dylai Llywodraeth Cymru ddiddymu'r Rheoliadau, ond nid oedd eraill o'r un farn, ond cytunodd yr holl Aelodau y dylid diwygio'r Rheoliadau yn dilyn ymgynghoriad llawn gan gynnwys grwpiau cleifion, Comisiynydd y Gymraeg a'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn ogystal â chyrrff proffesiynol sy'n cynrychioli darparwyr gofal sylfaenol annibynnol.. 6

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i esbonio pam mai dim ond am y lleiafswm o 21 diwrnod y caniatwyd i'r Cynulliad graffu ar y Rheoliadau hyn, o gofio bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi ymrwymiad i'r Cadeirydd y byddai rhagor o amser yn cael ei ganiatáu..... 6

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth ddrafft yn y dyfodol yn ymwneud â darparu gwasanaethau yn Gymraeg gan ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol, yn ddwyieithog, i'w harchwilio gan y Pwyllgor hwn cyn ei chyflwyno i'r Cynulliad..... 6

Argymhelliad 4. Er mai dim ond rhai Aelodau'r Pwyllgor oedd yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru warantu'r hawl i dderbyn gwasanaethau cyhoeddus yng



Nghymru yn Gymraeg lle mae'r capasiti presennol yn bodoli, roedd holl Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru weithio tuag at ddatblygu'r capasiti hwn mewn meysydd eraill.....13

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymgyrch gyfathrebu i addysgu darparwyr gofal sylfaenol annibynnol am eu dyletswyddau newydd. Dylai'r ymgyrch hon hyrwyddo'r cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg o ganlyniad i'r dyletswyddau hyn ac egluro i ba raddau y mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau allu sgwrsio yn Gymraeg.....13

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod darparwyr addysg a hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol yn ymwybodol o natur y dyletswyddau newydd er mwyn chwalu unrhyw gamsyniad am yr angen i weithwyr proffesiynol siarad Cymraeg er mwyn gweithio yng Nghymru.....17

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru egluro cyfrifoldebau'r byrddau iechyd lleol ar unwaith o ran cwrdd â chostau darparwyr gofal sylfaenol annibynnol o ganlyniad i gydymffurfio â'r Rheoliadau..... 19

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru roi cyllid i Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn iddo gynnal adolygiad o weithredu'r Rheoliadau ar ôl iddynt fod mewn grym am 12 mis. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chomisiynydd y Gymraeg gyflwyno adroddiad ar yr adolygiad i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.....22

1. Rhagarweiniad

Crynodeb

1. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ('y Pwyllgor') am Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 ('y Rheoliadau') pan gawsant eu cyflwyno yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') ar 9 Mai 2019. Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ynghlwm yn Atodiad 1.

2. Cytunodd y Pwyllgor i graffu ar y Rheoliadau o dan Reol Sefydlog 17.56 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl nodi y byddent yn gwneud hynny ym mis Mawrth 2018 wrth gynnal ymarfer tebyg ar set flaenorol o Reoliadau.

3. Gwahoddodd y Pwyllgor gynrychiolwyr y cyrff proffesiynol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol annibynnol - deintyddion, fferyllwyr, optegwyr a meddygon teulu - i drafod y Rheoliadau mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2019. Clywodd y Pwyllgor hefyd gan gynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a chan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg. Darparodd swyddogion o Lywodraeth Cymru bapur briffio preifat i'r Aelodau yn y cyfarfod.

- 4.** Clywodd y Pwyllgor gan y cyrff sy'n cynrychioli gweithwyr iechyd proffesiynol:
- eu bod o blaid cwrdd ag anghenion cleifion i gyfathrebu yn eu dewis iaith;
 - eu bod yn pryderu y gallai'r Rheoliadau godi disgwyliadau cleifion ac y gallent atgyfnerthu'r canfyddiad bod angen i weithwyr proffesiynol siarad Cymraeg er mwyn gweithio yng Nghymru. Gall hyn, yn ei dro, atal gweithwyr meddygol proffesiynol y mae mawr eu hangen rhag gweithio yng Nghymru; ac
 - eu bod yn ansicr a fydd holl gostau'r dyletswyddau newydd yn cael eu talu gan y Byrddau Iechyd Lleol, gan gynnwys cost cyflenwi swyddi pan fydd staff yn mynd ar gyrsiau hyfforddi.

5. Clywodd y Pwyllgor hefyd fod y gofyniad i siarad yn Gymraeg yn angenrheidiol yn achos rhai cleifion, nid yn ddewis. Disgrifiodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg y Rheoliadau fel cam cyntaf pwysig ar daith tuag at ddarparu rhagor o wasanaethau iechyd yn Gymraeg.

6. Clywodd y Pwyllgor bryderon gan Gymdeithas yr Iaith nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ffurfiol â chleifion ar y Rheoliadau drafft. Teimlai fod y dyletswyddau'n rhoi gormod o bwyslais ar y darparwyr gofal sylfaenol yn hytrach nag ar anghenion cleifion sydd fwyaf agored i niwed wrth gael mynediad at y gwasanaethau iechyd hyn.

7. Holodd y Pwyllgor hefyd a fydd y gwaith o gyflawni'r dyletswyddau yn y Rheoliadau hyn yn cael ei fonitro a'i orfodi'n ddigonol. Bydd Byrddau Iechyd Lleol yn gyfrifol am sicrhau bod darparwyr yn cyflawni eu dyletswyddau cytundebol i arddangos arwyddion, sicrhau bod dogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn y blaen. Ni fydd cleifion Cymraeg unigol yn gallu cwyno am y gwasanaeth a dderbyniwyd.

Diben y Rheoliadau

8. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004,

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006 a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013.

9. Mae'r diwygiadau yn pennu chwe dyletswydd, sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol yng Nghymru drwy delerau eu cytundebau â Byrddau Iechyd Lleol. Bydd gofyn i gontractwyr gymryd y camau a ganlyn:

- Rhoi gwybod i'r Bwrdd Iechyd Lleol am y gwasanaethau maent yn fodlon eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Sicrhau bod fersiwn Gymraeg o unrhyw ddogfen neu ffurflen a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol ar gael i gleifion a/neu aelodau'r cyhoedd;
- Arddangos testun yn Gymraeg ac yn Saesneg ar unrhyw arwydd neu hysbysiad newydd sy'n ymwneud â'r gwasanaeth a ddarperir;
- Annog siaradwyr Gymraeg i wisgo bathodyn, a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol, i ddangos eu bod yn gallu siarad Gymraeg;
- Annog y rhai sy'n darparu gwasanaethau i ddefnyddio gwybodaeth a/neu fynd i ddigwyddiadau a chysiau hyfforddi a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol er mwyn iddynt ddatblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth o'i hanes a'i rôl yn niwylliant Cymru) a dealltwriaeth o sut gellir defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau; ac
- Annog y rhai sy'n darparu gwasanaethau i gadarnhau a chofnodi dewis iaith o ran y Gymraeg a'r Saesneg a fynegwyd gan y claf neu ar ran claf.

Amseriad y Rheoliadau

10. Roedd y Pwyllgor yn siomedig gyda'r diffyg amser a roddwyd ar gyfer craffu. Rhoddwyd ymrwymiad i Gadeirydd y Pwyllgor, yn ystod dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y set flaenorol o Rheoliadau yn 2018, y byddai'r Pwyllgor yn cael mwy na 21 diwrnod i drafod y Rheoliadau hyn. Ysgrifennodd Clerc y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru dair gwaith i ofyn am ragor o eglurder ynghylch amseriad cyflwyno'r Rheoliadau hyn, a sicrwyd y byddai'r Pwyllgor yn cael mwy na'r isafswm 21 diwrnod. Ni chafwyd ateb gan Lywodraeth Cymru i'r cwestiynau hyn, ac nid oedd unrhyw rybudd o gwbl o gyflwyno'r Rheoliadau cyn iddynt gael eu cyflwyno ar 9 Mai.

11. Ymatebodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'n pryderon ynghylch amseriad y Rheoliadau, gan ddweud:

Bydd y dyddiad y daw'r dyletswyddau i rym, sef 30 Mai, yn cyd-fynd â'r dyddiad y daw mwyafrif Safonau'r Gymraeg i rym ar gyfer y sector iechyd, yn unol â'r hysbysiadau cydymffurfio ar gyfer byrddau iechyd a gyflwynwyd gan y Comisiynydd ar 30 Tachwedd. Mae dyletswyddau'r darparwyr gofal sylfaenol annibynnol yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth safonau iaith Gymraeg ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol o ran gofal sylfaenol.

12. Nodir yr ohebiaeth yn Atodiad 2.

13. Ni allai amseru'r cyflwyniad fod wedi bod yn waeth. Oherwydd Gŵyl y Banc, gwyliau braint ar gyfer staff y gwasanaeth sifil a chyfnod toriad y Cynulliad, dim ond 10 diwrnod gwaith a gafodd y Pwyllgor i graffu ar y Rheoliadau drafft. Ysgrifennodd y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sôn am ei phryderon ynghylch amseriad cyflwyno'r Rheoliadau, a dywedwyd wrthi:

Fel y gwyddoch, dan Reolau Sefydlog 21 a 27, does dim darpariaeth i Bwyllgor ac eithrio Pwyllgor cyfrifol, h.y. y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, roi gwybod am offeryn sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

14. Noda Rheolau Sefydlog y Cynulliad 17.56 "Caiff unrhyw bwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar faterion o fewn ei gylch gorchwyl". Mae deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn amlwg o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. At hynny, roedd y Pwyllgor eisoes wedi ymrwymo i graffu ar y Rheoliadau pan oedd yn adrodd ar ddeddfwriaeth debyg yn 2018 a 2017.

15. Daeth y Rheoliadau i rym ar 30 Mai 2019 cyn i'r Pwyllgor gael cyfle i glywed gan gynrychiolwyr y rhai y byddai'r Rheoliadau yn effeithio arnynt. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gyrff cynrychioliadol, a restrir isod.

16. Yn y cyfamser, cyflwynodd Dai Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, gynnig i ddirymu'r Rheoliadau. Bydd y cynnig hwn yn cael ei drafod ar 19 Mehefin 2019. Yn ogystal, cafodd y Pwyllgor lythyr gan Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, yn cymeradwyo barn y Pwyllgor nad yw'r amserlen ar gyfer trafod y Rheoliadau 'wedi caniatáu digon o amser ar gyfer craffu ar yr achlysur hwn' - gweler Atodiad 4.

Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn siomedig iawn nad oedd digon o amser ar gyfer craffu priodol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ddarn mor bwysig o ddeddfwriaeth a fydd yn cael effaith ar y rhan fwyaf o'r holl ryngweithio â'r gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi methu ag esbonio'n iawn yr oedi wrth gyflwyno'r Rheoliadau ar gyfer gwaith craffu gan y Cynulliad. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi egluro'r rhesymau dros y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym, ond nid pam y cawsant eu cyflwyno mor hwyr.

O ystyried ymrwymiad blaenorol Llywodraeth Cymru i ganiatáu rhagor na'r lleiafswm 21 diwrnod ar gyfer craffu ar y Rheoliadau hyn, mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi'r rhesymau pam na ddigwyddodd hyn.

Mae'r methiant difrifol hwn o du Llywodraeth Cymru nid yn unig yn tanseilio rôl craffu deddfwriaethol y Cynulliad, ond mae hefyd yn tanseilio'r berthynas rhwng y Pwyllgor a Gweinidogion Cymru.

Er bod y Pwyllgor yn gefnogol iawn o unrhyw ymdrech – a phob ymdrech – i gynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg, ni allwn gymeradwyo'r Rheoliadau hyn gan na fu digon o amser i ymgynghori arnynt na chraffu arnynt yn iawn.

Argymhelliad 1. Teimlai rhai Aelodau y dylai Llywodraeth Cymru ddiddymu'r Rheoliadau, ond nid oedd eraill o'r un farn, ond cytunodd yr holl Aelodau y dylid diwygio'r Rheoliadau yn dilyn ymgynghoriad llawn gan gynnwys grwpiau cleifion, Comisiynydd y Gymraeg a'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn ogystal â chyrff proffesiynol sy'n cynrychioli darparwyr gofal sylfaenol annibynnol.

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i esbonio pam mai dim ond am y lleiafswm o 21 diwrnod y caniatwyd i'r Cynulliad graffu ar y Rheoliadau hyn, o gofio bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi ymrwymiad i'r Cadeirydd y byddai rhagor o amser yn cael ei ganiatáu.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth ddrafft yn y dyfodol yn ymwneud â darparu gwasanaethau yn Gymraeg gan ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol, yn ddwyieithog, i'w harchwilio gan y Pwyllgor hwn cyn ei chyflwyno i'r Cynulliad.

2. Darparu gwasanaethau yn newis iaith y claf

17. Mae'r Pwyllgor wedi edrych o'r blaen ar ddeddfwriaeth a gynlluniwyd i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau iechyd. Yn adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau sy'n nodi gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, Cynghorau Iechyd Cymuned a'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru, nodwyd yn glir y dylai'r set nesaf o Reoliadau a gynlluniwyd ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol annibynnol geisio darparu gwasanaethau clinigol wyneb yn wyneb yn Gymraeg. Dywedodd y Pwyllgor:

Un o'r pryderon mwyaf sydd gennym ynghylch y Rheoliadau yw diffyg unrhyw hawl i gael gwasanaethau clinigol wyneb yn wyneb yn Gymraeg neu gyda chymorth Cymraeg. Rydym yn derbyn bod rhesymau ymarferol pam na all yr hawl i gael y gwasanaethau hyn fod yn ddiamod. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd adegau a sefyllfaoedd lle na fydd hi'n rhesymol nac yn gymesur i ddarparu gwasanaethau o'r fath. Mae'n bosibl y dylid blaenoriaethu gwasanaethau penodol (fel gofal dementia neu wasanaethau plant).

Serch hynny, rydym wedi clywed tystiolaeth am bwysigrwydd iaith mewn diagnosis clinigol a gofal. Yn fwy na hynny, dylai'r hawl i gael gwasanaeth yn eich iaith o ddewis fod yn egwyddor sefydledig yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, hyd yn oed os oes achlysuron pan fydd rhaid i'r hawl hwnnw leihau yn sgil beth y gellir ei ddarparu yn ymarferol. Mewn sawl ffordd, y Gwasanaeth Iechyd yw'r gwasanaeth cyhoeddus pwysicaf y bydd y rhan fwyaf o bobl yn ei ddefnyddio. Mae'r syniad na ddylai'r egwyddor sylfaenol hon fod yn gymwys i'r Gwasanaeth Iechyd hefyd, yn ein barn ni, yn annerbyniol.

18. Yn amlwg, nid yw'r Rheoliadau yn mynd i'r afael â phryderon y Pwyllgor fel y'u nodwyd yn ein hadroddiad blaenorol. Mae'r Rheoliadau yn pennu nifer cyfyngedig o ddyletswyddau ar ddarparwyr i gynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg lle bo'r gwasanaethau hynny ar gael a dangos gallu siaradwyr Cymraeg i gyfathrebu yn Gymraeg.

19. Clywodd y Pwyllgor gan gyrff proffesiynol eu bod yn gefnogol ar y cyfan i ddefnyddio dewis iaith cleifion ond bod ganddynt bryderon ynghylch i ba raddau mae'r Rheoliadau hyn yn codi disgwyliadau o ran beth gall darparwyr ei gyflawni. Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, dywedodd Fferylliaeth Gymunedol Cymru ('CPW'):

CPW is fully supportive of the desire to improve the provision of primary care services to those citizens that use Welsh as their First language and to do so in a practical and deliverable manner.

20. Fodd bynnag, ychwanegodd na ddylai'r Rheoliadau fod yn berthnasol i 'ddosbarthu presgripsiynau a chyflenwi meddyginiaethau' yn unig, a bod 'darparu'r gwasanaethau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg yn gymwys i'r sgwrs rhwng y fferylllydd a'r claf yn unig, ac nid darparu taflenni gwybodaeth i gleifion a ddarperir gyda'r meddyginiaethau neu labelu meddyginiaethau rhagnodedig, gan y byddai un yn gwbl anymarferol a byddai'r llall yn cael effaith sylweddol ar ddiogelwch cleifion.'

21. Ymatebodd Cymdeithas Ddeintyddol Prydain ('y BDA') i gwestiynau ynglŷn â pham y gallai annog ymarferwyr i wisgo laniardiau a mynd ar gyrsiau hyfforddi arwain at ganlyniadau anfwriadol. Dywedodd Dr Charlotte Seddon:

Because if people don't have the language, then they might feel that they wouldn't be able to—that it wouldn't be the sort of environment that they would necessarily feel that they could do everything that was required of them. It's about patient expectation, and I think it's about what the patients will be expecting now and in the future. And one of the points we mentioned in our original response was about how you manage the patient expectation. If patients expect to be conversing in Welsh within a practice where you don't have a native Welsh speaker, then you're going to be disappointing that expectation.

22. Cytunodd Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru ('y BMA') ar yr angen i ddynodi gwasanaethau Cymraeg. Dywedodd yn ei chyflwyniad ysgrifenedig:

it is worth reiterating that BMA Cymru Wales believes as a general principle that we must support the use of the Welsh language within health care settings in Wales for the benefit of Welsh-speaking patients. We very much recognise that it benefits patients to have the ability to communicate with medical practitioners in their First language.

23. Ond rhybuddiodd y gallai hyn godi disgwyliadau na ellir eu bodloni gan staff y feddygfa:

Many practices currently provide services or elements of Services through the medium of Welsh, whether informally on a conversational basis courtesy of individual practitioner/patient relationships, or on a more formal basis. Whilst the duty would help to increase patient awareness of the services they can receive through the medium of Welsh, it could also have an unintended consequence. Requiring practices to

formally record their 'offered services' could deter some practitioners or staff who, whilst being Welsh speakers, do not feel sufficiently confident in their abilities to describe themselves as being able to provide services through the medium of Welsh, which could affect their propensity to use it informally.

24. Er bod Dr Ian Harris wedi dweud yn y cyfarfod ar 6 Mehefin:

Personally, I'm not fearful. I don't think this raises expectations a significant degree, and, in my experience, Welsh speakers are very, very tolerant of not being catered for and are actually very appreciative of any direction, any move, towards Welsh language provision.

25. Teimlai nad oedd disgwyliad awtomatig gan gleifion y gallai (ac y dylid) cynnal ymgynghoriadau yn Gymraeg yn gyfan gwbl, gan ddweud:

the expectation from patients is not that you are perfectly fluent technically in every aspect of Welsh... They're very keen that you make that Welsh offer, and I think that's where we want to try to encourage people to move in that direction, even if it is with basic greetings in Welsh to start with, to make the patient feel at home, and then moving into an English consultation...

We're very supportive of the regulations as laid out, and I think the direction of travel is one where we'd like to see more and more Welsh provision.'

26. Dadleuodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, oherwydd bod y sector gofal sylfaenol yn gyfrifol am hyd at 90% o brofiadau cleifion yn y gwasanaeth iechyd, y dylai'r dyletswyddau hyn adlewyrchu'r ffaith mai hwn yw'r sector blaenoriaeth uchaf, ac y dylai 'roi'r amddiffyniad mwyaf posibl i hawliau iaith a buddiannau cleifion'. Dywedodd bod 'y rheoliadau yn llawer rhy wan i yrru gwelliannau o ddifri o ran gwasanaethau Gymraeg.'

27. Awgrymodd y dylid pennu dwy ddyletswydd ychwanegol ar ddarparwyr - eu bod yn hwyluso gwasanaethau wyneb yn wyneb yn Gymraeg ac yn hwyluso cyfarfodydd personol yn Gymraeg. Esboniodd Heledd Gwyndaf pam mae hyn yn bwysig:

yr ymwneud wyneb yn wyneb yna; mae'n hanfodol. Faint o Gymry Cymraeg sy'n mynd i mewn i feddygfa neu i unrhyw fath o wasanaeth, ac yn mynd 'O, maen nhw'n siarad Cymraeg.'? Ac mae hwnna yn dweud

cyfrolau, achos mae'n dangos bod straen ychwanegol wrth feddwl am fynd i rywle a gorfod cyfathrebu sut rydych chi'n teimlo... yn eich ail iaith...

Felly, dyw'r safonau na'r rheoliadau hyn ddim yn mynd i newid ein bywydau ni fel y dylen nhw. Dŷn nhw ddim yn dod â gwerth ychwanegol i siaradwyr Cymraeg ac i bobl Cymru, ac, felly, mae'n golygu bod y gwasanaeth iechyd ddim yn gwneud ei waith yn iawn... Ac o ddim roi unrhyw hawliau i ymdrin â'ch meddyg neu'ch deintydd wyneb yn wyneb, dyw hwnna ddim mewn gwirionedd yn newid pethau yng Nghymru.

28. Soniodd hefyd am y ffaith nad ymgynghorwyd yn ffurfiol â chleifion ynghylch y Rheoliadau. Dywedodd Colin Nosworthy:

Rydym ni yn poeni'n gyffredinol wrth lunio'r safonau yma bod llawer mwy o bwys yn cael ei roi i farn cyrff na defnyddwyr. Ond dwi'n meddwl yn yr achos yma, mae'n eithriadol o wael.

29. Yn ei lythyr at y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

Cynhaliwyd trafodaethau hefyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg ar y 6 dyletswydd ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol annibynnol yn ystod 2018/19. Nododd Comisiynydd y Gymraeg, gan nad oeddent wedi bod yn ddarostyngedig i gynlluniau iaith Gymraeg yn flaenorol, ac yn seiliedig ar gapasiti a gallu mewn gofal sylfaenol, ei bod yn fodlon bod y dyletswyddau yn rhesymol a phriodol ar hyn o bryd ar gyfer y darparwyr gofal sylfaenol annibynnol.

30. Gofynnwyd i Dyfan Siôn o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wneud sylwadau ar yr asesiad hwn. Dywedodd:

Ydan, rydan ni'n dal o'r farn bod y dyletswyddau yma yn briodol fel cam cyntaf. Wrth gwrs, fel rydan ni'n symud ymlaen, mi fydd angen monitro i sicrhau bod y dyletswyddau fel maen nhw yn llwyddiannus, ac rydan ni hefyd yn gweld bod yna gyfle i adeiladu ymhellach arnyn nhw. Ond fel maen nhw ar hyn o bryd, cam cyntaf, rydan ni'n meddwl eu bod nhw'n briodol.

31. Gofynnwyd iddo sut gellid cryfhau'r Rheoliadau. Atebodd gan ddweud:

Mae'r rheoliadau yn cyflwyno chwe dyletswydd, ac mae yna gyswllt rhwng y dyletswyddau yna a'r safonau sydd eisoes wedi cael eu gosod yn y byrddau iechyd. Dwi'n meddwl pe bai yna fodd i ddatblygu'r

dyletswyddau ymhellach, mae dau o'r dyletswyddau, os dwi'n cofio'n iawn, yn sôn am anogaeth, felly annog darparwyr gofal sylfaenol, er enghraifft, i gofnodi dewis iaith cleifion. Yn sicr, mae yna le i gryfhau hynny tu hwnt i anogaeth i sicrhau ei fod o yn digwydd. Mi fyddai hynny, o bosibl, yn un ffordd o gryfhau'r rheoliadau. Ond tu hwnt i hynny, rydan ni yn gallu gweld y cyswllt efo'r safonau sydd eisoes wedi cael eu gosod ar y byrddau iechyd. Dwi'n meddwl bod hynny'n adeiladol; jest efallai symud o'r anogaeth i'r sicrhau fyddai'r cam pwysig.

32. Yna eglurodd nad yw siarad Cymraeg yn aml yn fater o ddewis ond yn anghenraid:

mae'n bwysig nodi, dwi'n meddwl, o ran cael gwasanaethau Cymraeg yn y maes iechyd, yn aml iawn ac i nifer o gleifion mae o'n fater o angen clinigol, nid jest yn fater o ddewis iaith yn unig. Felly, mae hynny'n egwyddor bwysig. Y peth arall i nodi hefyd, yn amlwg, o ran gofal sylfaenol ydy dyma ydy cyswllt cyntaf mwyafrif helaeth y cyhoedd efo'r gwasanaeth iechyd.

33. Gofynnwyd i Dyfan Siôn roi sylwadau ar y pryderon y gallai annog staff i wisgo laniardiau godi disgwyliadau cleifion o ddarpariaeth y gwasanaeth sydd ar gael yn Gymraeg. Ymatebodd:

Wel, ie, mae'n bwysig bod disgwyliadau fel hyn yn cael eu cyflwyno'n sensitif. Mae'n bwysig bod yna drafodaeth yn digwydd. Mae gennym ni eithaf tipyn o brofiad yng Nghymru, bellach, o fod wedi gweithio mewn sectorau eraill - awdurdodau lleol, colegau, prifysgolion, ac yn y blaen - lle mae yna anogaeth a disgwyliad i staff sydd yn gallu cynnig gwasanaeth yn Gymraeg i ddangos hynny i'r cyhoedd. Felly, dwi ddim yn meddwl bod y sector iechyd ar ei ben ei hun o ran taclo'r broblem yna. Dydy o ddim yn rhywbeth dŷn ni'n dod ar ei draws yn aml, a bod yn onest, cyn belled bod yna ddigon o gefnogaeth o safbwynt y cyflogwr.

Ein barn ni

Mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i'r mwyafrif helaeth o wasanaethau iechyd y byddwn i gyd yn dod ar eu traws yn ein bywydau bob dydd. Mae mynd at y meddyg neu'r deintydd, casglu ein presgripsiynau a chael prawf llygaid yn ddigwyddiadau arferol. Gellir gwneud yr holl ryngweithiadau hyn yn haws i siaradwyr Cymraeg os yw gwasanaethau ar gael yn eu dewis iaith. Fodd bynnag, rydym yn dal i fod yr un mor bell i ffwrdd o gyflawni'r lefel honno o wasanaeth ag yr oeddem ni ar ddechrau'r Cynulliad hwn. Ychydig iawn o gynnydd, os o gwbl, y

mae'r Rheoliadau hyn yn ei wneud o ran rhoi'r hawl i bobl yng Nghymru dderbyn gwasanaeth cyhoeddus yn eu dewis iaith. Yn wir, roedd adroddiadau blaenorol y Pwyllgor yn derbyn nad yw hyn bob amser yn ymarferol ond dylai fod yn 'egwyddor sefydledig yn ein gwasanaethau cyhoeddus'. Nid yw ein barn ar hyn wedi newid.

Rydym yn deall pwysigrwydd cyfathrebu clir mewn lleoliadau iechyd a'r problemau posibl a achosir os yw cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn camddeall ei gilydd. Fodd bynnag, pan fydd cleifion ar eu mwyaf bregus mae eu hangen i gyfathrebu yn eu dewis iaith yn hollbwysig. Gall fod yn fater o reidrwydd yn hytrach na dewis yn unig.

Clywodd y Pwyllgor am bryderon gweithwyr proffesiynol y gallai arwyddion a thaflenni yn y Gymraeg, ac annog siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i wisgo laniardiau priodol, godi disgwyliadau cleifion. Mae ofn di-sail y bydd disgwyl i weithwyr proffesiynol gynnal ymgynghoriadau yn Gymraeg ac y byddant yn wynebu cwynion os nad yw hyn yn bosibl.

Mae gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n dangos bod cyfathrebu yn y Gymraeg yn bosibilrwydd drwy wisgo laniard yn gysur i rywun sydd mewn trallod. Mae cleifion Cymru yn ddieithriad yn ddwyieithog a byddant yn deall nad yw newid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn achos i gwyno ond yn ddigwyddiad eithaf cyffredin.

Wrth ddrafftio'r Rheoliadau hyn, mae'n amlwg bod Llywodraeth Cymru wedi eu haddasu i weddu i'r hyn y gellir ei gyflawni yng ngoleuni ei hymgyngoriad â chyrrff proffesiynol. Fodd bynnag, ni chwaraeodd y bobl bwysicaf - y cleifion - unrhyw ran ffurfiol yn yr ymgynghoriad. Nid yw'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhoi unrhyw arwydd o farn y rhai y bydd y dyletswyddau hyn yn effeithio arnynt fwyaf. Gadawyd i Gymdeithas yr Iaith Gymraeg gynrychioli cleifion Cymraeg eu hiaith i'r Cynulliad.

Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrth y Pwyllgor fod y Comisiynydd y Gymraeg blaenorol wedi cymeradwyo'r dyletswyddau hyn fel rhai 'rhesymol a phriodol ar hyn o bryd'. Fodd bynnag, mae arlliw gwahanol iawn ar y sefyllfa. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Swyddfa'r Comisiynydd wedi cytuno bod y dyletswyddau hyn yn briodol fel 'cam cyntaf'. Mae o'r farn 'y dylid adeiladu ar y dyletswyddau hyn mewn amser'. Mae ei gymeradwyaeth i'r dyletswyddau hyn yn amodol ar y syniad eu bod yn ddechrau taith at ragor o ddarpariaeth gwasanaeth iechyd dwyieithog. Mae'n hanfodol bwysig dysgu mwy am gyfeiriad a chyflymder y 'daith' hon gan y Llywodraeth os ydym am gael unrhyw ffydd yn ei hymrwymiad i ddarparu'r gwasanaeth cyhoeddus a ddefnyddir fwyaf mewn iaith y mae pob claf yn teimlo'n gyfforddus yn ei defnyddio.

Mae cyfle i ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol ddysgu o brofiad sefydliadau sy'n gweithredu safonau ar hyn o bryd – er enghraifft, awdurdodau lleol, a rhannu arfer da ar draws sectorau. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yn ddiweddar bod y broses, er ei bod yn drylwyr, yn darparu eglurder, sicrwydd ac, yn y pen draw, wedi cael effaith gadarnhaol ar ddiwylliant mewnol sefydliadau.

Argymhelliad 4. Er mai dim ond rhai Aelodau'r Pwyllgor oedd yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru warantu'r hawl i dderbyn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn Gymraeg lle mae'r capasiti presennol yn bodoli, roedd holl Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru weithio tuag at ddatblygu'r capasiti hwn mewn meysydd eraill.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymgyrch gyfathrebu i addysgu darparwyr gofal sylfaenol annibynnol am eu dyletswyddau newydd. Dylai'r ymgyrch hon hyrwyddo'r cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg o ganlyniad i'r dyletswyddau hyn ac egluro i ba raddau y mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau allu sgwrsio yn Gymraeg.

3. Effaith y Rheoliadau ar recriwtio a chadw gweithwyr iechyd proffesiynol

34. Clywodd y Pwyllgor gan gynrychiolwyr y cyrff gweithwyr iechyd proffesiynol fod posibilrwydd y gallai'r Rheoliadau atal pobl rhag gweithio yn y sector gofal sylfaenol yng Nghymru.

35. Er nad yw'r Rheoliadau'n gofyn am ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer ymgynghoriadau, roedd y cyrff proffesiynol o'r farn bod canfyddiad bod angen i weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio yng Nghymru allu siarad Gymraeg. Dywedasant fod hyn yn cael effaith yn barod ar y gallu i recriwtio gweithwyr proffesiynol i fyw a gweithio yng Nghymru.

36. Mae cyflwyniad ysgrifenedig Cymdeithas Ddeintyddol Prydain i'r Pwyllgor yn dangos ei phryderon am y mater hwn:

At a time when there are shortages of dentists in some parts of Wales ... the Perception of the Welsh language requirements in dental practice may impact quite severely the numbers of dentists coming from outside Wales to work in Wales in future, including from England. This effect of

Perception by dentists should not be underestimated, particularly against a backdrop of stagnant dental workforce planning.

We want Wales to be an inclusive country, we already have problems recruiting across the healthcare sectors; especially GPs and Dentists. If prospective GPs or Dentists feel that they have to be able to speak Welsh or feel they are being actively encouraged to provide a consultation via translation then it will provide another barrier to recruiting high quality practitioners.'

37. Dywedodd Roger Pratley o Gymdeithas Ddeintyddol Prydain:

There are problems in recruitment, not so much in the M4 corridor, although there are problems there as well, but certainly further west. Practice owners are finding it extremely difficult, at the moment, to get anybody to take up positions in their practice, and I think—is it one or two practices in north Wales that have given their contracts back, basically, and they've closed? I think it's one practice, actually. So, there does lie a problem in recruitment.

38. Dywedodd Dr Phil White o Gymdeithas Feddygol Prydain wrth y Pwyllgor:

But I do know that there are big issues with recruiting secondary care staff. There's a perception that, in north-west Wales, because you have to have a knowledge of Welsh or access to Welsh, and that your children will be educated in Welsh-medium schools, it is a deterrent to many people applying for jobs, because they see that as an extra burden in an already stressful profession.

39. Aeth Dr Ian Harris o Gymdeithas Feddygol Prydain yn ei flaen i ddweud:

I think there's anecdotal evidence from border areas where they do try and recruit that some people are put off by the perception that they can't apply to Welsh posts because they don't have Welsh. I certainly think that does apply along the Welsh border. I've not seen any hard evidence in that regard, but you certainly get feedback anecdotally from people who are interviewing and who are advertising posts

40. Pwysleisiodd Cymdeithas Ddeintyddol Prydain a Chymdeithas Feddygol Prydain yr angen am wella cynllunio'r gweithlu i greu gweithlu dwyieithog. Pwysleiswyd pwysigrwydd cadw graddedigion Cymraeg eu hiaith yng Nghymru ar ôl eu hyfforddiant.

41. Pwysleisiodd Fferylliaeth Gymunedol Cymru hefyd yr angen i wneud y 'cynnig gwaith' yng Nghymru yn ddeniadol i wrthwynebu'r farn bod gweithio yng Nghymru yn golygu bod gweithwyr proffesiynol yn gorfod gallu siarad Cymraeg. Dywedodd Steve Simmonds:

a lot of research was done amongst pre-registration students the other side of the bridge. And some of them did express that concern that, 'I don't think I can work in Wales because I don't speak Welsh.' So, in reality, there is that thing, but we shouldn't over-egg that. I think we need to approach it in a very different way, and what Welsh Government are currently doing, through Andrew Evans, our chief pharmaceutical officer, is that we're defining a pharmacy service in Wales that is a much more clinical service, that our pharmacists want to be part of. So, what we're actually doing is making practising pharmacy in Wales more attractive than practising pharmacy in other parts of the UK. So, actually, it's a positive driver for people into Wales, and that's a much better way of going about it.

42. Holwyd Dyfan Siôn o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg am y posibilrwydd y byddai pobl yn cael eu hatal rhag darparu gwasanaethau yng Nghymru os yw'r rheoliadau'n 'fwy trylwyr'. Atebodd gan ddweud:

Mae angen i ni sicrhau bod yr addysg a'r hyfforddi ro'n i'n sôn amdano fo gynnau yn cyfrannu tuag at weithlu dwyieithog. Y peth arall hefyd ydy wrth gwrs bod yna fuddsoddi ar hyn o bryd mewn hyfforddiant iaith Gymraeg drwy'r ganolfan dysgu. Mae'n bwysig bod yna gymorth a chefnogaeth ar gael i gynnig hyfforddiant a bod y byrddau iechyd a chyflogwyr eraill yn gwthio hynny hefyd i sicrhau ein bod ni yn gallu gwella a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg y gweithwyr sy'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd, a hefyd pobl sydd yn symud yma i weithio.

43. Dywedodd fod Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi adroddiad "a oedd yn mapio allan yr hyfforddiant, yr addysg sydd ar gael er mwyn creu gweithlu gofal sylfaenol dwyieithog". Aeth ymlaen i ddweud "un o'r prif negeseuon oedd nad ydy'r llwybrau hyfforddi'n ddigonol ar hyn o bryd i greu gweithlu dwyieithog, ac roedd hynny'n arbennig o wir o'r data gwnaethom ni ei gasglu ynglŷn â meysydd fel deintyddion, optegwyr, ymwelwyr iechyd. Felly, mae yna *issue* yn fanna o ran yr addysg a'n gallu ni i gynhyrchu ymarferwyr sydd efo'r sgiliau angenrheidiol drwy gyfrwng y Gymraeg."

44. Pan ofynnwyd i Colin Nosworthy o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg wneud sylwadau ar gynllunio'r gweithlu a recriwtio, dywedodd:

Dwi'n meddwl ein bod ni wedi gwneud dau bwynt wrth y Llywodraeth, sef bod angen coleg hyfforddi llawn i feddygon ym Mangor... ond hefyd bod angen edrych ar gwotâu o ran sut mae llefydd ar y cyrsiau hyfforddiant yna yn cael eu defnyddio. Mae yna enghreifftiau o bobl sy'n hollol gymwys i, er enghraifft, fynd i mewn i astudio i fod yn feddyg, ond eto lle yn cael ei wrthod, ac wedyn yn astudio yn Lloegr, yn amlwg ddim yn cael eu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg, a dŷn ni'n colli sgiliau'r person hynny.

45. Wrth roi sylwadau mewn ymateb i gwestiwn am yr angen i hyfforddiant iaith Gymraeg fod yn rhan greiddiol o hyfforddiant proffesiynol, cytunodd Heledd Gwyndaf o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg fod hynny'n 'rhan o'r gwasanaeth sydd ei angen.' Soniodd hefyd am yr angen i ddarparwyr gwasanaethau allu cyfathrebu yn Gymraeg:

Ond falle rhywbeth sydd ddim yn cael ei ymdrin ag ef yn y rheoliadau yw gofyniad iaith mewn swydd. Dwi'n byw yn Llandysul. Mae dros 60 y cant o bobl Llandysul yn siaradwyr Cymraeg. Maen nhw wedi apwyntio rhywun wrth y ddesg [yn y feddygfa] nad sy'n medru'r Gymraeg. So, mae'n ateb y ffôn, mae'n croesawu pobl. Mae holl naws y feddygfa wedi newid. Mae pobl fregus iawn yn dod i mewn i'r feddygfa yna. Er enghraifft, dyw hyn ddim yn ymdrin chwaith â dewisiad iaith ar unrhyw lefel.

Ein barn ni

Clywodd y Pwyllgor fod canfyddiad ymysg hyfforddeion a gweithwyr proffesiynol cymwysedig bod gweithio yng Nghymru yn golygu gorfod siarad Cymraeg. Dadleuodd pob un o'r gweithwyr proffesiynol y clywsom ganddynt fod recriwtio pobl i weithio yng Nghymru eisoes yn broblematig ac y byddai unrhyw faich ychwanegol canfyddedig ar recriwtiaid newydd, fel yr angen i ddysgu Cymraeg, yn rhwystr ychwanegol i recriwtio.

Mae'n destun pryder bod y canfyddiad hwn wedi codi o gofio bod y Rheoliadau yn 'annog' yn hytrach na 'gorfodi' gweithwyr sy'n siarad Cymraeg i wisgo bathodyn; darparwyr i gofnodi dewis iaith y claf a chyflogwyr i ddarparu amser i staff fynd ar gyrsiau hyfforddiant Cymraeg.

Mae angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael ar unwaith â chamdybiaethau am y galluoedd Cymraeg sy'n ofynnol gan ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol.

Dylai'r rhai sy'n astudio yng Nghymru ar gyfer gyrfaedd mewn gwasanaethau gofal sylfaenol gael eu cynorthwyo a'u hannog i aros yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynyddu cyfleoedd i'r rhai sy'n astudio ar gyfer gyrfaedd mewn gwasanaethau sylfaenol i ymgymryd â'u hastudiaethau, ac unrhyw leoliad gwaith, yn Gymraeg

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod darparwyr addysg a hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol yn ymwybodol o natur y dyletswyddau newydd er mwyn chwalu unrhyw gamsyniad am yr angen i weithwyr proffesiynol siarad Cymraeg er mwyn gweithio yng Nghymru.

4. Costau

46. Soniwyd wrth y Pwyllgor am bryderon darparwyr gofal iechyd ynghylch y costau ychwanegol i'w busnesau yn sgil cyflawni'r dyletswyddau a osodir arnynt drwy'r Rheoliadau. Clywsom gan fferyllwyr ac optegwyr eu bod yn cydnabod eu bod mewn marchnad gystadleuol ac y byddant yn gwneud popeth o fewn eu gallu i ddenu cwsmeriaeth, gan gynnwys bodloni disgwyliadau ar gyfer darpariaeth Gymraeg.

47. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor fod ansicrwydd o hyd ynghylch swm y cyfieithiadau sydd eu hangen ym mhob practis a phwy fydd yn gyfrifol am fodloni'r gofyniad hwn.

48. Soniodd Fferylliaeth Gymunedol Cymru am gostau cyflenwi swyddi os yw eu haelodau am fodloni'r gofyniad i annog presenoldeb mewn cyrsiau ymwybyddiaeth iaith. Yn nghyflwyniad ysgrifenedig y corff, dywed:

The Regulations as drafted require NHS Pharmacists to encourage appropriate people to attend health board training courses on Welsh language provision. CPW would recommend that, if this is to be successful, monies are made available to health boards so that pharmacy contractors can be reimbursed for the costs of attending any courses as CPW believe it is unreasonable for the cost of meeting these new regulatory requirements to fall on pharmacy contractors.

49. Yn ei chyflwyniad ysgrifenedig dywed Cymdeithas Ddeintyddol Prydain:

BDA Wales considers that - under enforcement of the regulations - health boards should provide translation of signage - at their expense.

We also believe that health boards should provide finance for the production and erection of such signage. If necessary as a one off Grant to dental practices.

To be clear, BDA Wales considers that dental practices should NOT have to foot the bill for signage translation, production or erection. Similarly if badges are to be provided by the health board at the cost to the health board then that is considered acceptable within the context of enforcement. The requirement for forms and website information and other literature and information to be provided in the Welsh language if applicable to dental services should be funded by the health boards.

50. Dywedodd Cymdeithas Feddygol Prydain yn ei thystiolaeth ysgrifenedig ei bod yn cytuno â'r rhwymedigaeth ar fyrddau iechyd lleol i dalu costau cyfieithu arwyddion, ffurflenni a dogfennau eraill yn ôl yr angen. Dadleuodd hefyd y dylid cwrdd â chostau cyflenwi i alluogi staff i fynd i hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith:

practices may find it extremely difficult, if not impossible, to release GPs and staff given the current workload pressures and Recruitment challenges in Welsh general practice. We would suggest that, in order to fully realise the aspirations of this duty, the costs of access to training (e.g. staff backfill) need to be fully met by Health Boards or Welsh Government.

51. Gofynnwyd i Heledd Gwyndaf o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg 'sut ydych chi'n ymateb i'r pryderon a godwyd gan yr holl gyrff proffesiynol sydd wedi bod yma yn ystod bore heddiw' [ynghylch cost cyfieithu taflenni a rhyddhau staff ar gyfer hyfforddiant]. Atebodd gan ddweud:

Alla'i jest ofyn - falle tawlu'r cwestiwn yn ôl? Beth yw cost yr iaith Saesneg i'r gwasanaeth iechyd? ...

Rŷn ni'n ei weld fel hawl y gweithwyr i ddysgu'r Gymraeg, ac mae hwnna'n hawl sylfaenol a phwysig. Dwi ddim yn meddwl mewn meysydd eraill byddai rhywun wedyn yn dechrau mynd rownd yn cwestiynu hawliau gweithwyr i bethau eraill...

sgil yw'r Gymraeg, yntefe? Felly, bydden nhw'n mynd i gael hyfforddiant. Dywedwch fod nyrs ddim yn gallu rhoi chwistrelliad yn eich braich chi... byddai hi'n mynd i gael hyfforddiant i wneud hwnna achos bod e'n rhan greiddiol o'r gwasanaeth. Beth yn y cwestiwn sydd ddim wedi cael ei ddeall yw bod y Gymraeg yn rhan greiddiol o'r gwasanaeth - ddim yn atodiad, ddim fel, 'Dyma budget y Gymraeg'. Felly, mae'r holl budget arall

yn budget Saesneg. Holl budget yr NHS yn budget Saesneg a'r atodiad yw'r Gymraeg, onid e? Hynny yw, Saesneg yw'r norm felly, onid e? Beth os yw pethau'n cael eu creu'n Gymraeg, taflenni a phethau, achos maen nhw yn, maen nhw'n gallu cael eu—. Wedyn, felly, i'w cyfieithu nhw i'r Saesneg, byddai hwnna'n gost i'r Saesneg byddai fe?

Ein barn ni

Yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau, dywed Llywodraeth Cymru "Nid yw'r Rheoliadau yn gorfodi costau ar y sector cyhoeddus, preifat na gwirfoddol. O'r herwydd, nis ystyrir bod angen cynnal Aseiad Effaith Rheoleiddiol."

Nid yw hyn yn adlewyrchu'r dystiolaeth a glywsom gan gyrff proffesiynol. Maent yn pryderu am y goblygiadau cost posibl ar eu practisau yn sgil cyfieithu gwybodaeth argraffedig ac arwyddion. Maent hefyd yn pryderu am gostau posibl cyflenwi staff pan gânt eu rhyddhau i fynd i hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg.

Clywsom fod darparwyr eisiau sicrwydd mai cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol yw talu costau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ac, yn hollbwysig, cost cyflenwi staff sy'n mynd ar gyrsiau hyfforddi o ganlyniad i'r dyletswyddau newydd hyn.

Mae'r diffyg eglurder hwn ynghylch talu costau'r dyletswyddau newydd hyn yn golygu ei bod yn bosibl na fydd darparwyr gofal iechyd yn gallu cynllunio'n effeithiol.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru egluro cyfrifoldebau'r byrddau iechyd lleol ar unwaith o ran cwrdd â chostau darparwyr gofal sylfaenol annibynnol o ganlyniad i gydymffurfio â'r Rheoliadau.

5. Monitro a gorfodi

52. Gosododd Rheoliadau blaenorol safonau'r Gymraeg ar Gyngorau Iechyd Cymuned, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru. Gwnaed hynny yn 2017 a 2018 dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac roeddent yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Cynulliad. Gwneir y Rheoliadau presennol, sy'n rhoi chwe dyletswydd o ran y Gymraeg ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol, o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, ac felly

maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Gan hynny, maent wedi dod i rym yn awtomatig heb gael eu trafod gan y Cynulliad Cenedlaethol fel mater o drefn.

53. Gorfodir safonau'r Gymraeg, a osodir ar gyrrff drwy reoliadau a wnaed o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan Gomisiynydd y Gymraeg.

54. Fodd bynnag, mae'r dyletswyddau o ran y Gymraeg yn cael eu rhoi ar ddarparwyr gofal sylfaenol drwy delerau eu cytundebau â byrddau iechyd lleol, ac felly bydd y bwrdd iechyd lleol perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod y darparwr gofal sylfaenol yn cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn drwy'r trefniadau cytundebol hyn.

55. Os yw darparwr gofal sylfaenol yn methu cydymffurfio â'r dyletswyddau, bydd yn torri ei gontract â'r bwrdd iechyd lleol. Yn y lle cyntaf mae'n rhaid i'r partïon weithio gyda'i gilydd i geisio datrys yr anghydfod, a byddai disgwyl i'r bwrdd iechyd lleol gefnogi'r darparwr gofal sylfaenol. Os na ellir dod o hyd i ddatrysiad rhwng y bwrdd iechyd lleol a'r darparwr gofal sylfaenol, gall unrhyw barti gyfeirio'r anghydfod at Weinidogion Cymru.

56. Os na fydd byrddau iechyd lleol yn gweithredu mewn perthynas â methiant gan y darparwr gofal sylfaenol i gydymffurfio â'r dyletswyddau, gall Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn ymyrryd mewn perthynas â'r bwrdd iechyd lleol¹. Mae'r dyletswyddau sy'n codi o'r rheoliadau hyn yn berthnasol i gontractau a wnaed cyn ac ar ôl 30 Mai 2019.

57. Trafododd y Pwyllgor sut bydd darparwyr gofal sylfaenol yn cael eu monitro i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau.

58. Holwyd Cymdeithas Feddygol Prydain pa gorff ddylai fod yn gyfrifol am fonitro, ac atebodd Dr Ian Harris:

I'm not sure we're too worried about who does it, we're more worried about how it's done. I think we need to be mindful of the fact, as it's a journey, that we need be relatively light touch and supportive on this and encouraging people... So, I think that the key for us is that this needs to be a process where people are encouraged to deliver better services in Welsh.

59. Roedd Fferylliaeth Gymunedol Cymru ac Optometreg Cymru o'r farn mai'r Bwrdd Iechyd Lleol fyddai'r cartref gorau i'r rôl fonitro. Pan ofynnwyd a ddylai

¹ Adran 26 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Comisiynydd y Gymraeg chwarae rôl, dywedodd Steve Simmonds o Fferylliaeth Gymunedol Cymru:

I think we'd have concerns over that simply because we have a Government-appointed regulator, the General Pharmaceutical Council, which visits our pharmacies to inspect as to whether or not we're meeting and complying with their standards. We also then have the health board visiting to ensure that we comply with all of the contractual elements. To introduce a third visitor in the pharmacy would be disruptive and it's probably unnecessary, because we do have regular visits from health boards, who go through a large tick-box exercise to check whether or not we comply with all the requirements of the current community pharmacy contractual framework anyway. So, to me it would be sensible and simple to just make them the monitoring agents.

60. Roedd Cymdeithas yr Iaith yn argymhell bod gan Gomisiynydd y Gymraeg rôl ffurfiol yn y broses gwyno ac o ran monitro darparu gwasanaethau. Yn ei chyflwyniad ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd:

credwn fod angen, yn y cytundeb, rôl swyddogol er mwyn i'r Comisiynydd fonitro a gorfodi'r amodau iaith ynddo, megis drwy gymal sy'n amlinellu rôl ffurfiol yn broses gwyno. Fel arall, rydym yn bryderus ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro sut mae'r ddarpariaeth Gymraeg yn gwella o dan y contract newydd, beth fydd y drefn a pha newidynnau a asesir.

61. Holwyd Dyfan Siôn o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ynghylch y dewisiadau deddfwriaethol ar gyfer gosod safonau'r Gymraeg ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol. Dywedodd wrth y Pwyllgor mai'r ateb mwyaf ymarferol oedd y dewis a ffafrir gan Lywodraeth Cymru i "sicrhau bod yna ddyletswyddau yn cael eu gosod ar y cyrff drwy'r contract gwasanaeth iechyd."

62. Gofynnwyd iddo sut bydd Comisiynydd y Gymraeg yn sicrhau bod darparwyr yn cyflawni eu dyletswyddau. Eglurodd:

Felly, mae gennym ni bwerau rheoleiddio dros y byrddau iechyd ac unrhyw wasanaethau maen nhw'n darparu'n uniongyrchol. O safbwynt y dyletswyddau yma o fewn y contract, yna'r byrddau iechyd fyddai'n gyfrifol am fonitro bod y contract yn cael ei weithredu.

63. Eglurodd fod dyletswydd ar fyrddau iechyd lleol:

- i ddarparu hyfforddiant a chymorth cyfieithu i'r darparwyr gofal sylfaenol;

- i gael polisi ynglŷn â darpariaeth gofal sylfaenol ac
- ystyried y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau gofal sylfaenol.

64. Mae'r Comisiynydd yn goruchwyllo cydymffurfiaeth y byrddau iechyd lleol ac felly “trwy'r gwahanol fecanwaith yna, mae'n dal yn bosib inni gael trosolwg dros y sefyllfa.” Ychwanegodd “Mi fydd rhaid inni gydweithio, dwi'n meddwl, efo'r Llywodraeth a'r byrddau iechyd i sicrhau bod yna wybodaeth ynglŷn â'r drefn yma ac i wneud yn siŵr ein bod ni i gyd yn gwybod a ydy o'n llwyddo ai peidio.”

Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn pryderu mai'r unig ffordd y bydd y dyletswyddau hyn yn cael eu gorfodi yw drwy'r trefniadau cytundebol rhwng byrddau iechyd lleol a darparwyr gofal sylfaenol.

Rydym yn deall y dewiswyd y trefniant hwn i leihau'r baich gweinyddol o osod safonau'r Gymraeg ar nifer fawr o ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol bach. Fodd bynnag, mae hyn yn arwain at sefyllfa lle mae cyflawni'r dyletswyddau hyn yn llai agored i graffu a lle mae unigolion Cymraeg eu hiaith yn llai abl i gwyno am ansawdd y gwasanaeth a gafwyd.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu ei bod yn bosibl nad oes goruchwyliaeth genedlaethol ddigonol dros weithredu'r dyletswyddau hyn. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i roi cyllid i Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn iddo gynnal adolygiad o weithredu'r Rheoliadau ar ôl iddynt fod mewn grym am 12 mis. Dylai Comisiynydd y Gymraeg a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adrodd ar yr adolygiad hwnnw i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru roi cyllid i Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn iddo gynnal adolygiad o weithredu'r Rheoliadau ar ôl iddynt fod mewn grym am 12 mis. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chomisiynydd y Gymraeg gyflwyno adroddiad ar yr adolygiad i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

Y broses graffu

65. Trafododd y Pwyllgor y Rheoliadau gyda'r bobl hyn yn ei gyfarfod ar 6 Mehefin 2019:

Dr Phil White	Cymdeithas Feddygol Prydain yng Nghymru
---------------	---

Dr Ian Harris	Cymdeithas Feddygol Prydain yng Nghymru
Dr Caroline Seddon	Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yng Nghymru
Roger Pratley	Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yng Nghymru
Steve Simmonds	Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Rhodri Thomas	Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Siân Walker	Optometreg Cymru
Heledd Gwyndaf	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Colin Nosworthy	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Dyfan Siôn	Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

66. Cyhoeddir y cyflwyniadau ysgrifenedig a ddarparwyd, a thrawsgrifiad y cyfarfod, ar ein gwefan:

<http://www.assembly.wales/cy/bus-home/committees/Pages/Committee-Profile.aspx?cid=445>

Atodiad 1	<p>Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld12515/sub-ld12515-w.pdf</p> <p>Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gwneud a Gosod Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld12515-em/sub-ld12515-em-w.pdf</p>
Atodiad 2	<p>Gohebiaeth gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s88608/Papur%208.2.pdf</p>
Atodiad 3	<p>Gohebiaeth gan y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s88245/Papur%203.1.pdf</p>

Atodiad 4	Cohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol http://senedd.assembly.wales/documents/s88588/Paper%208.4.pdf
--------------	---